

Doyal

Doyal (1979) Yr anghysondeb rhwng darparu gofal iechyd am ddim ac anghenion cyfalafiaeth i wneud elw.

Fodd bynnag, mae Doyal (1979) yn dadlau bod anghysondeb rhwng darparu gofal iechyd am ddim ac anghenion cyfalafiaeth i wneud elw.

1. Pŵer

Mae Marcswyr yn dadlau bod pŵer gan y proffesiwn meddygol. Gellir ystyried bod meddygaeth yn rhan o offer ideolegol y wladwriaeth. Fel y swyddogaethwyr, mae Marcswyr yn dadlau mai math o reolaeth gymdeithasol yw meddygaeth ond yn wahanol i swyddogaethwyr, maent yn dadlau nad yw meddygaeth yn gweithredu er budd i bawb ond yn hytrach, er budd y dosbarth llywodraethol, sef cyfalafiaeth. Mae Navarro (1986) yn dadlau bod gweithlu iach yn arwain at elw iach.

2. Peryglon cyfalafiaeth fodern

Mae pobl yn defnyddio cynhyrchion sydd ar gael iddynt o ganlyniad i gyfalafiaeth a'r broses o gynhyrchu nwyddau a gwasanaethau megis bwydydd wedi'u prosesu, diodydd llawn siwgr, bwydydd cyflym a cheir, sydd oll yn peri risg i iechyd. Mae'r goblygiadau iechyd sy'n gysylltiedig â gordddefnyddio'r cynhyrchion hyn a chynhyrchion eraill yn arwain at yr angen am driniaethau y mae cwmnïau fferyllol yn eu cynhyrchu ac yn eu gwerthu i'r GIG gan wneud elw sylweddol.

Mae Doyal a Pennell (1979) yn dadlau y gall pobl gael damweiniau yn y gwaith, y gallant wynebu lefelau uchel o straen a theimladau o ymddieithrio.

Mae Annandale (1998) yn dadlau bod cwmnïau preifat wedi cynhyrchu mewnbaniadau silicon i'w gosod mewn bronnau ond pan gafwyd eu bod yn ddiffygiol, roedd y cwmnïau yn araf i gynnig iawndal.

3. Tlodi

Mae nifer o Farcswyr megis Doyal a Doyal a Pennell yn dadlau nad gwella a thrin y salwch yw'r problem mewn gwirionedd ond yn hytrach, ei atal drwy ddileu tlodi a'r amodau materol y mae pobl yn eu hwynebu sy'n cael effaith andwyol ar eu hiechyd, megis tai llaith.